Telerau ac Amodau Prifysgol Bangor (Sesiwn Academaidd 2018/19)

Mae'n bwysig iawn eich bod yn darllen a deall y Telerau ac Amodau hyn cyn i chi dderbyn lle ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r Telerau ac Amodau llawn yn cynnwys cysylltiadau at ddogfennau eraill ar wefan y Brifysgol. Trwy dderbyn yn ffurfiol gynnig o le i astudio yn y Brifysgol, rydych yn derbyn y Telerau ac Amodau yn y ddogfen hon, a hefyd yn derbyn rheoliadau, gweithdrefnau a chodau ymarfer y Brifysgol a nodir yng

1.5. Lle mae ymgeisydd yn dymuno apelio neu gwyno ynghylch unrhyw agwedd ar y broses ymgeisio a derbyn, dylid dilyn y polisi a'r weithdrefn a geir yn y *Polisi a Chod Ymarfer ar Recriwtio a Derbyn Myfyrwyr, Adran 12*.

1.6. Mae'r Brifysgol yn ystyried bod y contract rhwng yr ymgeisydd a'r Brifysgol wedi ei ffurfio ar un o dri phwynt:

i. Pan fo'r ymgeisydd yn 'derbyn' cynnig o le ym Mhrifysgol Bangor (Ymgeiswyr israddedig UCAS Cartref / Undeb Ewropeaidd ac ymgeiswyr ôl-radd);

ii. Pan fo'r ymgeisydd wedi 'derbyn' y cynnig o le ym Mhrifysgol Bangor AC wedi talu'r blaendal gofynnol (ymgeiswyr rhyngwladol, tramor);

NEU iii. Pan fo Prifysgol Bangor yn 'derbyn' yr ymgeisydd yn TRACK (Ymgeiswyr clirio).

1.7 Ar y pwynt pan gaiff y contract ei ffurfio (i, ii NEU iii uchod), mae gan yr ymgeisydd hawl i ganslo'r cytundeb o fewn 14 diwrnod (y cyfnod ailystyried) a dylent roi gwybod i'r Brifysgol yn ysgrifenedig.

1.8 Gall y Brifysgol dderbyn myfyrwyr nad ydynt yn 18 oed erbyn 1 Medi yn y flwyddyn gofrestru. Ystyrir bod myfyrwyr o'r fath yn 'blant dan oed' yn gyfreithiol ac felly mae gan y Brifysgol ddyletswydd gofal uwch drostynt. Er mwyn cyflawni'r rhwymedigaeth hon, mae gan y Brifysgol Bolisi a Gweithdrefnau i Fyfyrwyr dan 18 oed a fydd yn cael ei weithredu ac sy'n cynnwys yr angen i Riant / Gwarcheidwad lenwi ffurflen Ganiatâd, ac i'r myfyriwr aros yn llety Neuaddau'r Brifysgol.

Yn Dilyn Cofrestru

2. Rhaid i bob myfyriwr gofrestru'n ffurfiol gydag adran Gweinyddu Myfyrwyr y Gwasanaethau Myfyrwyr ar ddechrau eu cwrs ac, yn dilyn hynny, bydd angen iddynt gadarnhau o bryd i'w gilydd eu bod yn parhau i fynychu eu cwrs. Mae'n

3.3. Rhoddir cyfeiriad e-bost Prifysgol i fyfyrwyr a disgwylir iddynt edrych ar eu cyfrif e-bost Prifysgol yn rheolaidd. Y cyfrif hwn a ddefnyddir gan y Brifysgol i gyfathrebu'n electronig â'r myfyrwyr.

3.4. Caiff presenoldeb myfyrwyr ei fonitro fel y disgrifir yn Natganiad Polisi'r Brifysgol ar Fonitro Presenoldeb a Chyfranogiad Myfyrwyr.

3.5. Fel amod cofrestru, mae'r Brifysgol yn disgwyl i fyfyrwyr roi'r holl wybodaeth y gofynnir amdani, fel y gall y Brifysgol gyflawni ei busnes a'i rhwymedigaethau cyfreithiol i gyrff statudol (e.e. Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch HESA.) Mae gan y Brifysgol mewn grym Bolisi Diogelu Data, a Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr, wedi'u diweddaru i adlewyrchu gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

3.6. Er mwyn symud o un lefel rhaglen i un arall (er enghraifft, o flwyddyn gyntaf i ail flwyddyn gradd israddedig), mae'n rhaid i bob myfyriwr gyflawni'r safonau disgwyliedig ar gyfer eu cwrs fel y nodwyd yn rheoliadau'r rhaglen.

3.7. Mae astudio yn y Brifysgol yn dibynnu ar onestrwydd academaidd a gellir rhoi cosbau, gan gynnwys atal myfyrwyr o'u hastudiaethau, am ymarfer annheg. Mae enghreifftiau o ymarf 0 1 151.58 546.43 Tm05]TJw 5759.3B4f1 008871 .y Tm0 g0 G[c)3(yfr)

9.32 841.9 reW*BT3nETQ000008871 0 59.32 841.9 reW*BT/F2 12 Tf1 0 0 1 19.9561.1 Tm0 g03.7523